



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Pecyn Recriwtio

**Cyfarwyddwr
Gweithrediadau'r Grŵp**
Lle mae arloesedd
yn cwrdd â chyfle



Diolch am eich diddordeb yn ein rôl newydd Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Grŵp.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Grŵp Cynefin wrth i ni barhau ar daith drawsnewidiol tuag at ddiwylliant sy'n canolbwyntio'n ddiffuant ar y cwsmer a chanlyniadau.

Mae'r sector tai a'n cymunedau gwledig yn parhau i wynebu heriau mawr, yn arbennig datgarboneiddio a darparu mwy o dai fforddiadwy. Bydd y rôl hon yn chwarae rhan ganolog wrth chwilio am atebion arloesol i'r heriau hyn, ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu partneriaethau i sicrhau y gallwn gyflawni ein huchelgeisiau a llawer mwy na thai.



Rydym wedi bod yn darparu tai o ansawdd, sy'n ddiogel a fforddiadwy dros chwe sir gogledd Cymru a gogledd Powys i dros 8,000 o bobl ers 2014, pan gawsom ein creu wrth i ddau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig traddodiadol uno. Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu tai a gwasanaethau rhagorol, i gyfrannu i ddatblygiad cymunedau cynaliadwy a gwarchod a hybu'r iaith Gymraeg gyda balchder. Rydym yn falch o'r hyn yr ydym eisoes wedi ei gyflawni, ond nid yw'n ddigon, a chyda thîm ymroddedig yn ein cefnogi, rydym ni'n wirioneddol gyffrous o gael croesawu tair rôl newydd i'n tîm o uwch reolwyr a'n Tîm Arweinyddiaeth gan gyflawni mwy fyth.

Mae gennym uchelgeisiau mawr, gyda buddsoddiad arfaethedig o £84m yn ein cartrefi a'n cymunedau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae ein cymunedau a nifer y cartrefi rydyn ni'n eu rheoli ar fin tyfu, rydyn ni am gynyddu iechyd a lles ein cymunedau i'r eithaf, creu cyfleoedd sy'n newid bywydau a llunio lleoedd i sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Rydym yn chwilio am rywun sydd yn canolbwyntio ar ragoriaeth gwasanaeth cwsmeriaid gymaint â ni. Mae'n bwysig i ni fod ein gwasanaethau'n rhagori, bod ein cymunedau'n ffynnu a'n bod yn gweithio mewn partneriaeth â hwy ac eraill i gyflawni hyn. Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n adeiladu ar ein perthnasoedd a'n henw da fel partner arloesol y gellir ymddiried ynom. Bydd ddealltwriaeth dda o'r cyddestun cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a hanes o ymgorffori gwelliannau i wasanaethau tai craidd yn llwyddiannus; gan gynnwys defnyddio buddion technoleg. Does dim rhaid dweud y dylai eich gwerthoedd adlewyrchu ein gwerthoedd ni. Rydym hefyd yn chwilio am wir gydweithredwr â chalon gymdeithasol, arweinydd â lefelau uchel o egni personol a all symbylu eraill i fyw ac anadlu ein gweledigaeth 'Mwy na thai' a chanolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'n cymunedau a dod o hyd i ffyrdd o wireddu hyn.

Bydd gennych hanes o sicrhau gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol wrth sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn wych, bydd gennych hefyd yr ysfaf, y weledigaeth a'r gallu i sicrhau cyllid sy'n galluogi newid cadarnhaol ar raddfa fawr i'n cymunedau.

Mae Grŵp Cynefin yn sefydliad cryf yn ariannol gyda chyfleoedd cyffrous o'n blaenau, felly mae'n amser gwych i rywun sy'n chwilio am gyfle i lunio gyrfa, ymuno â Thîm Arweinyddiaeth blaengar a chael cyfle i arwain prosiectau newydd a chyffrous. Os ydych chi'n rhannu ein penderfyniad, ein hysfa a'n hangerdd i fod yn allweddol wrth wneud gwahaniaeth i ddyfodol pobl; mae'r Bwrdd a minnau'n edrych ymlaen at glywed gennych.

Mae'r wybodaeth yn y pecyn cais yn rhoi blas o'r gwaith a wnawn, ond i gael mwy o wybodaeth gallwch ymweld â'n gwefan, neu i gael trafodaeth gyfrinachol am y rôl hon ffoniwch fi ar 07870 975669 neu Gwenda Squire, Rheolwr AD ar 07825187160.

Diolch eto am eich diddordeb,

Shan Lloyd Williams
Prif Weithredwr



Mwy na thai.

Rydym eisoes yn adnabyddus am wneud mwy na rheoli a gosod tai yn unig. Rydym yn gweithredu fel Strwythur Grŵp, gydag arbenigedd ac adnoddau mewn byw'n annibynnol, addasiadau a gwasanaethau cymorth i bobl ifanc 16-24 oed, pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn ein cymunedau yn ogystal â gwasanaethau cefnogol ar gyfer trais domestig ac atal digartrefedd. Mae ein cymunedau gwledig yn bwysig i ni ac felly hefyd yr amgylchedd, gyda phrosiect ein warden ynni gyda degawd o brofiad yn ein cymunedau.

Rydyn ni'n gwybod trwy ein prosiectau sydd wedi ennill sawl gwobr, megis HWB Dinbych, y gallwn ni wneud gwahaniaeth go iawn i unigolion a'u cymunedau ac rydyn ni'n dda am gael partneriaid i weithio gyda'i gilydd i gyflawni mwy nag y gallen ni yn unigol i adfywio cymunedau a chreu cyfleoedd.



Dyma ychydig mwy am beth ydym ni'n ei olygu pan fyddwn ni'n sôn am 'Fwy na thai' ...

Cartrefi o safon – addas ac mewn llefydd y mae pobl yn falch ohonynt

Bydd ein cartrefi yn y dyfodol yn ddiogel ac yn **arloesol**, yn cynnwys y dyluniadau diweddaraf lle gallwch chi weithio gartref. Byddant yn gartrefi am oes, gyda thechnoleg glyfar, yn rhatach i'w rhedeg, yn garbon isel ac yn lleoedd cysylltiedig â manau gwyrdd hawdd eu cyrraedd lle gall ffrindiau, teuluoedd a phlant chwarae, tyfu a chyfarfod yn ddiogel.

Gwasanaethau a phrofiadau rhagorol i'n cwsmeriaid

Rydym am i bobl fod eisiau byw yn ein cartrefi, cael ein hymatebion yn iawn y tro cyntaf ac i'n cwsmeriaid ddweud bod ein gwasanaethau'n rhagorol. Ac mae'n hawdd i'n tenantiaid gysylltu â ni pryd bynnag maen nhw eisiau neu angen.

Gwella bywydau

Byddwn yn gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles y bobl yn ein cymunedau.

Bydd ein gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi (tlodi bwyd, tlodi digidol a thlodi tanwydd) a'u lleihau, gan ddod o hyd i atebion a chyfleoedd sy'n newid bywydau sy'n galluogi pobl i godi allan o dlodi.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phobl i'w galluogi i aros yn eu cartrefi yn ddiogel ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd, a pharhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi grwpiau bregus ac amrywiol o bobl, ac atal digartrefedd a chefnogi'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig.



Cynnal Cymunedau

Bydd ein cymunedau'n ffynnu a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a chefnogi hyn. Byddwn yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol yn ein cymunedau, gan fuddsoddi mewn gwella iechyd a lles ein cymunedau wrth weithio gydag asiantaethau a grwpiau eraill i adfywio cymunedau.

Yn ogystal ag adeiladu mewn ardaloedd trefol, bydd gennym hefyd ffocws gwirioneddol ar ein cymunedau gwledig lle mae ail gartrefi yn arwain at eithrio pobl ifanc lleol trwy beri iddynt gael eu prisio allan o'r farchnad.

Twf cadarn a chynaliadwy

Byddwn yn parhau i adeiladu tai diogel, fforddiadwy o ansawdd rhagorol, gan gynnig tai ar gyfer gwahanol ddeiliadaethau sy'n diwallu angen lleol, boed yn ddemograffig, yn gymdeithasol neu'n economaidd. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn adeiladu cartrefi i safon di-garbon ac yn chwilio am gyfleoedd i ddenu grantiau ar gyfer adeiladau newydd ac ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddefnyddio ein harbenigedd i adeiladu tai ar gyfer eu gwerthu ar y farchnad er mwyn cynhyrchu cyfleoedd i fuddsoddi mewn tai rhent mwy fforddiadwy a pharhau i geisio cyfleoedd gweithio rhanbarthol a lleol trwy weithio mewn partneriaeth sy'n ychwanegu gwerth, yn cyfateb i'n gwerthoedd ac yn helpu i adeiladu mwy o gartrefi.





SWYDD DDISGRIFIAD

CYFARWYDDWR GWEITHREDIADAU'R GRŴP

Tîm:	Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol
Atebol i:	Prif Weithredwr
Yn gyfrifol am:	Pennaeth Cymdogaethau, Pennaeth Rheolaeth Asedau, Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer, Prif Swyddog Canllaw, Prif Swyddog Gofal a Thrsio Conwy a Sir Ddinbych.
Lleoliad:	Hyblyg - Dinbych / Penygroes / Gweithio gartref

PWRPAS Y RÔL:

Darparu gweledigaeth strategol ac arweinyddiaeth sy'n gyrru gwasanaethau Cymdogaethau ac Eiddo rhagorol, cynhwysol sy'n seiliedig ar feddwl ymlaen, gan alluogi amrediad o ddewisiadau ar gyfer cartrefi cymdeithasol/ fforddiadwy sydd wedi eu cadw'n dda, ac sy'n effeithlon o ran ynni mewn cymunedau ble mae pobl eisiau byw. Cefnogi'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i ddiffinio a chyflwyno Cynllun Corfforaethol Grŵp Cynefin, ei flaenoriaethau a'i bolisiau i alluogi cwsmeriaid a chymunedau i ffynnu yn y dyfodol.

ATEBOLRWYDD ALLWEDDOL A CHYFLWYNO GWASANAETH

Gan weithio trwy dimau amlddisgyblaethol byddwch yn ymgysylltu â'r busnes, yn gyrru'r cyfeiriad strategol, yn datblygu'r Grŵp fel le gwych i weithio. Byddwch yn cefnogi fframweithiau rheoli risg, sicrwydd busnes a gwerth am arian, yn hybu cymunedau cynaliadwy, atal digartrefedd ac yn arwain darpariaeth cartrefi diogel a rhagorol, gan oruchwylio'r gwasanaethau canlynol:

- Rheolaeth asedau (portffolio eiddo presennol)
- Cynnal a chadw cynlluniedig, gwaith trwsio ac addasiadau ymatebol
- Rheolaeth Diogelwch Tân
- Uchafu incwm
- Gosod a Dosbarthu Eiddo
- Rheolaeth Cymdogaethau
- Gwasanaethau Tai Arbenigol (Byw'n annibynnol, atal digartrefedd, cefnogaeth camdriniaeth yn y cartref, llochesi, cynlluniau tai â chefnogaeth, gwasanaethau plant a phobl ifanc, cefnogaeth yn y gymuned)
- Profiad y Cwsmer a chyfranogiad tenantiaid

Cefnogi'r Prif Weithredwr, i ymgysylltu a dylanwadu ar randdeiliaid allweddol, eirioli dros ein cymunedau a Grŵp Cynefin ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, mynychu digwyddiadau a darparu adborth amserol a chraff i ymgynghoriadau a fforymau perthnasol i ddylanwadu ar bolisi a meithrin perthnasoedd cryf a buddiol i bawb gyda rhanddeiliaid, gan sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaethau tai arbenigol a chynrychioli Grŵp Cynefin fel sefydliad dibynadwy a all ddarparu atebion cadarnhaol.

Goruchwylio datblygiad, darpariaeth ac adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Asedau, gan gynnwys cynlluniau gwaredu a buddsoddi a chydweithio ar brosiectau datgarboneiddio, nodi'r angen am gynlluniau datblygu newydd a chyfrannu at y broses cynllunio busnes ariannol 30 mlynedd i wneud y mwyaf o asedau Grŵp Cynefin er budd y gymuned, gan helpu i lunio lleoedd lle gall cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol ffynnu.

Goruchwylio gwasanaethau atgyweirio, cynnal a chadw ac addasu effeithlon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Sicrhau fod Grŵp Cynefin yn lleihau nifer y cartrefi gwag, ac yn creu tenantiaethau cynaliadwy.

Arwain datblygiad strategaethau cynyddu cymdogaethau ac incwm a sicrhau rheolaeth ragweithiol ar gyfrifon rhent, taliadau gwasanaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thenantiaethau.



Goruchwylio parhad busnes o fewn y timau gweithredol, gan sicrhau y gall yr holl wasanaethau barhau i fodloni neu ragori ar ofynion statudol a rheoliadol.

Gyrru diwylliant iechyd a diogelwch agored, gan gyfarwyddo gweithgareddau yn benodol ar gyfer diogelwch Tân a rheoli asbestos a sicrhau cyfundrefnau cydymffurfio eiddo cadarn (nwy, trydanol, legionella a LOLER (Lifting operations & lifting equipment Regs 1998) ac ati) a bod diogelwch a lles y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw bob amser yn flaenoriaeth.

Sicrhau fod prosesau diogelu yn effeithiol a bod lles tenantiaid a chymunedau yn flaenoriaeth yng ngweithrediadau Grŵp Cynefin ac yn helpu i gefnogi ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Sicrhau fod Grŵp Cynefin yn darparu profiadau rhagorol i gwsmeriaid a bod y busnes yn deall anghenion ei gwsmeriaid ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan annog strategaethau ymgysylltu arloesol sy'n galluogi ystod eang o gyfranogiad, a chyfle i'w gwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid lywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol ac arwain at well profiadau a chanlyniadau i gymunedau Grŵp Cynefin.

Nodi risgiau, atebion a chyfleoedd newydd i'w cyflawni yn erbyn amcanion elusennol Grŵp Cynefin, gan sicrhau y darperir cyngor arbenigol a phroffesiynol i'r Bwrdd er mwyn cynyddu potensial Grŵp Cynefin i'r eithaf.

Arwain a darparu diwylliant proffesiynol, gwerth am arian, perfformiad uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan optimeiddio lefelau gwasanaeth, boddhad cwsmeriaid drwy broses gwyno agored ac effeithiol wedi'i hymgorffori ar draws Grŵp Cynefin i gefnogi'r busnes i wella.

Adeiladu ar brosiectau sy'n bodoli eisoes, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fasnachol hyfyw (Canllaw, Gofal a Thrwsio, Gorwel ac ati) a nodi cyfleoedd newydd a phartneriaethau sydd o fudd i'r ddwy ochr sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau a chymunedau.

Sicrhau bod cydweithwyr yn datblygu, mabwysiadu ac ymgorffori technoleg a systemau adrodd corfforaethol i yrru mewnwelediad i berfformiad. Rhoi mewnwelediad strategol i'r Bwrdd gan ddefnyddio adroddiadau cywir ac amserol o ddata o bob maes o'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau a ffynonellau allanol perthnasol.

Goruchwylio'r adolygiad parhaus o swyddogaethau Eiddo a Chymdogaeth a meithrin diwylliant o ddysgu o fewn Grŵp Cynefin fel bod ffyrdd traddodiadol o feddwl yn cael eu herio, chwilfrydedd ac arloesedd yn cael eu hannog, a diwylliant o waith tîm a chydweithredu yn arwain at ragoriaeth.

Gwneud Grŵp Cynefin yn lle gwych i weithio; arwain, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr ar draws pob maes o'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau trwy arweinyddiaeth ddilys; gosod disgwyliadau clir, modelu safonau ymddygiad, hyfforddi'r tîm lle bynnag y bo modd i'w datblygu, gan greu cyfleoedd iddynt dyfu a chreu capasiti ar gyfer y dyfodol.

Cyfleu gweledigaeth Grŵp Cynefin yn gyson ac yn effeithiol i'r holl randdeiliaid gan sicrhau bod pobl yn gywybod sut y gallant helpu i drawsnewid bywydau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Hyrwyddo a byw gwerthoedd Grŵp Cynefin; bod yn agored, bod yn barchus, bod yn gefnogol, bod yn arloesol a chyflawni.

Hyrwyddo a gwreiddio gwerth cydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin defnydd o'r Gymraeg gyda balchder.

Dirprwyo ar ran aelodau eraill y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ac ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau rhesymol eraill yn ôl yr angen.

PERTHNASOEDD ALLWEDDOL:

Mewnol

Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli (Penaethiaid Gwasanaeth, Prif Swyddogion a Rheolwyr Arweiniol), aelodau Bwrdd a phwyllgorau.

Allanol

Uwch Swyddogion Awdurdodau Lleol, Darparwyr Tai Cymdeithasol, BIPBC, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a chyirff cyhoeddus eraill, SARTH, arweinwyr Undebau Llafur, arweinwyr cymunedol, ymgynghorwyr, contractwyr, y Chartered Institute of Housing, Cartrefi Cymunedol Cymru.



Amdanoch chi...

Addysg a Chymwysterau:

- Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig neu aelodaeth siartredig mewn disgyblaeth berthnasol e.e. tai, polisi cymdeithasol neu'r amgylchedd adeiledig ac ati fel CIH / RICS neu gyfwerth
- Cymhwyster yn seiliedig ar Iechyd a Diogelwch e.e. Rheoli / Cyfarwyddo'n Ddiogel (ROSPA)
- Addysg lefel gradd (dymunol)

Gwybodaeth a Phrofiad:

- Profiad o ddatblygu strategaethau, polisiau a chynlluniau effeithiol mewn busnes sy'n perfformio'n dda ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
- Profiad o ddarparu asedau a rheoli eiddo gwerth am arian
- Gwybodaeth a phrofiad o reoli gofynion rheoleiddio a chydymffurfiaeth tai cymdeithasol yn effeithiol, gan gynnwys diogelwch tân
- Profiad o weithio'n effeithiol gyda swyddogion gweithredol, byrddau, pwyllgorau, gweithwyr a phartneriaid a rhanddeiliaid eang
- Gwybodaeth a phrofiad o sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaethau tai arbenigol a'u prosesau comisiynu
- Profiad cynhwysfawr o reoli prosiect mewn sefydliad maint canolig gan gynnwys cwrdd â'r holl ofynion statudol, cyfreithiol a rheoliadol

Sgiliau

- Sgiliau cyfathrebu cryf gyda'r gallu i argyhoeddi, trafod, dylanwadu ac ymgysylltu ag ystod eang o bobl trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg
- Lefelau uchel o egni personol, wedi ymrwymo i ragoriaeth, gan wahodd adborth yn rheolaidd a chroesawu newid
- Sgiliau gwerthuso a dadansoddi o'r radd flaenaf, gyda'r gallu i archwilio, gwerthuso a dehongli gwybodaeth
- Sgiliau arwain uwch, gyda'r gallu i wneud penderfyniadau gwych, cyfarwyddo a grymuso eraill
- Sgiliau gweithio mewn tîm rhagorol, gan gynnig cefnogaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogi pobl
- Sgiliau datrys problemau cryf, gyda'r gallu i gynhyrchu syniadau newydd, archwilio posibiliadau, darparu mewnwelediad, datblygu strategaethau diriaethol a mabwysiadu dulliau ymarferol
- Gwydn, â'r gallu i aros yn hyderus, yn hunanfeddiannol a datrys gwrthdaro



Cwrdd â'r Tîm



Shan Lloyd Williams
Prif Weithredwr Grŵp



Bryn Ellis
Cyfarwyddwr Adnoddau Grŵp



Cyfarwyddwr Gweithrediadau



Cyfarwyddwr Arloesedd a Thŵf



Nia Owen
Pennaeth Cyllid



Noela Jones
Pennaeth Cymdogaethau



Pennaeth Datblygu



Gwenda Squire
Rheolwr AD



Meilir Hughes
Pennaeth Rheolaeth Asedau



Mair Edwards
Pennaeth Adfywio Cymunedau



Helen Jones
Rheolwr Llywodraethu a Chydymffurfio



Elfyn Owen
Prif Swyddog Canllaw



Geraint Williams
Rheolwr Systemau



Dewi Maelor Evans
Rheolwr Iechyd a Diogelwch



Lynda Colwell
Prif Swyddog Gofal a
Thrsio Conwy a
Sir Ddinbych



Rhys Williams
Rheolwr Rhaglenni



Ceri Davies
Rheolwr Prosiect Corfforaethol



Buddiannau gyrfa gyda Grŵp Cynefin

Cyflog

Cystadleuol

Cyfnod Rhybudd

3 mis wedi'r cyfnod prawf

Pensiwn

Cynllun SHPS Defined Benefit / Defined contribution

Gwyliau

33 diwrnod yn ogystal â gwyliau banc

Buddiannau ffordd o fyw

Mynediad i'n cynllun lles Byd o Les yn ystod 2021

Cyfleusterau gweithio hyblyg a'r gallu i weithio o bell/ gweithio gartref os yn addas.

Datblygiad Personol

Os oes gennych gymwysterau proffesiynol a'ch bod yn talu ffioedd proffesiynol blynyddol i'ch corff aelodaeth, byddwn yn talu un o'r rhain bob blwyddyn i'ch helpu i aros yn gysylltiedig â'r wybodaeth a'r addysg ddiweddaraf gan eich corff proffesiynol. Rydyn ni hefyd eisiau i'n holl gydweithwyr fwynhau buddion dysgu gydol oes, felly os ydych chi'n gweithio gyda ni byddwn ni'n buddsoddi ynoch chi fel hyn hefyd!



Cais, proses a dyddiadau i'ch dyddiadur

I ymgeisio am y rôl



Cwblhewch y ffurflen gais y gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan a chyflwyno hon i gwenda.squire@grwpcynefin.org ynghyd â;



Eich llythyr eglurhaol o ddim mwy na tair tudalen yn dweud wrthym pam eich bod chi'n diddori yn y rôl a pham fod eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn golygu mai chi yw'r person iawn i'r swydd.



Cwblhewch y Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal sydd ar gael ar y wefan hefyd a'i hanfon i ni os gwelwch chi'n dda. Caiff y wybodaeth ar y ffurflen ei thrin yn gyfrinachol a'i defnyddio ar gyfer pwrpasau ystadegol yn unig. Ni chaiff y ffurflen ei thrin fel rhan o'ch cais.



Proses a Dyddiadau Dangosol

Dyddiad cau: 18 Mai 2021, cyflwynwch eich dogfennau drwy e-bost ac erbyn hanner dydd (12 o'r gloch) (byddwn yn cadarnhau ein bod wedi ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd)

Hysbysiad os ar y rhestr fer: 21 Mai 2021. Byddwch yn derbyn e-bost erbyn y dyddiad hwn yn gadael i chi wybod a hoffem eich gweld chi ar gyfer y rôl hon.

Dyddiad cyfweiliad sgrinio: 27 Mai 2021. I gadw pawb yn ddiogel rydym yn cynnal cyfweiliadau dros Zoom.

Dyddiad ail gyfweiliad: 9 Mehefin 2021. Rydym yn gobeithio gweld ymgeiswyr wyneb yn wyneb yn ein swyddfa yn Ninbych (os yw cyfyngiadau coronafeirws yn caniatáu), os ddim byddwn yn eu cynnal yn rhithiol.

Os gwahoddir chi i'r cam hwn gofynnir i chi hefyd gwblhau asesiad proffilio arddulliau proffesiynol Wave a pharatoi adroddiad byr i'w gyflwyno yn y cyfweiliad.

Disgwylwch gadw at y dyddiadau hyn ond gallant newid. Rhwng wybod i ni os oes gennych unrhyw anhawster gyda'r dyddiadau a amlinellwyd. Rydym yn ceisio cynnig hyblygrwydd ond efallai na fydd yn bosibl y tu allan i'r dyddiadau dewis a hysbysebir oherwydd ymrwymadau dyddiadur.

Manylion eraill

Cynhelir cyfweiliadau yn ddwyieithog, a byddwn yn disgwyl i chi allu ymateb yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg.

Os ydych chi'n llwyddiannus yn y rôl byddwch angen darparu tystiolaeth o hunaniaeth a thystiolaeth eich bod yn gymwys i weithio yn y DU. Bydd cynnig hefyd yn amodol ar wiriad DBS manylach.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.